**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Annwyl Syr/Fadam

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd - Cynllun Adneuo - Ionawr 2025**

Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn wrth i'r Cyngor baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Wrth ymateb i ymgynghoriadau CDLlau rydyn ni fel arfer yn rhoi ffocws ar y broses sydd wedi ei defnyddio wrth osod y cynllun, gan ystyried a yw'r awdurdod cynllunio wedi ystyried polisïau a deddfau sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn cynllunio. Rydyn ni'n falch o weld yr ymdrechion sylweddol sydd yn y dogfennau atodol i osod sail dystiolaeth berthnasol a chref ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Rydyn ni'n cytuno â'ch asesiad yn y Papur Technegol Cefndir Rhif 9 sy'n dweud na ddylai cynllun datblygu lleol fod yn rhwystr i dwf y Gymraeg, ond yn hytrach y dylai fod yn rhan o'r atebion i'w gweld hi'n ffynnu. Trwy brif ffrydio strategaethau Cymraeg Cyngor Caerdydd o fewn y cynllun newydd, rydyn ni'n meddwl eich bod yn cymryd camau sylweddol tuag at wireddu hynny.

**Cynllunio ar gyfer ysgolion**

Mae'r Papur Technegol Cefndir 9 yn cydnabod taw'r system addysg a hyfforddiant yw'r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg, ac rydych yn gwneud y cyswllt rhwng hynny a thargedau Cyngor Caerdydd i gynyddu'r nifer o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg, yn unol â thaflwybr *Cymraeg 2050*. Rydym yn nodi eich bod yn ymrwymo i sicrhau y bydd 50% o ysgolion newydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Yn ogystal, rydych yn sefydlu'r egwyddor bod 'cymdogaethau 15-munud' yn cael eu cymhwyso i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi. Ac eithrio trosglwyddo yn y cartref, rydyn ni'n cytuno mai'r system addysg yw'r ffordd fwyaf effeithiol o greu siaradwyr newydd, ac rydym yn gefnogol o'ch gweledigaeth.

Rydym yn awyddus i ddeall yn well sut bydd Cyngor Caerdydd yn mynd ati i wireddu ei uchelgais o ddatblygu ysgolion Cymraeg newydd, a lle y byddant yn cael eu lleoli. Mae eich sail tystiolaeth yn galluogi dadansoddi fesul cymunedau ar y lefel micro, ac rydyn ni'n

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

meddwl y byddai'n ddefnyddiol petai'r CDLl yn dadansoddi fesul ward ble mae'r angen mwyaf am addysg Gymraeg o fewn y sir, a chymharu hynny yn erbyn lle y rhagwelir datblygu ysgolion newydd yn ystod oes y CDLl newydd. Mae'n bosib y bydd y manylder yma i ddilyn pan fyddwch yn datblygu eich Canllaw Cynllunio Atodol (CCA).

**Enwau lleoedd**

Rydym yn croesawu bod y CDLl newydd yn gwneud enwau Cymraeg yn ddiofyn ar gynigion datblygu, ac yn gosod disgwyliad i arwyddion fod yn ddwyieithog. Mae cynyddu gwelededd y Gymraeg yn cyfrannu at ei normaleiddio, yn ogystal â chynyddu'r defnydd ohoni. Rydym yn falch o weld eich bod wedi cyfeirio at ganllawiau Tîm Hybu'r Comisiynydd ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Yn y cyd-destun hwnnw, gallai gyfeirio at ein rhestr o enwau lleoedd safonol fod o ddefnydd i'r rheini fydd yn dilyn y CDLl.

**Datblygiadau mawr**

Croesawn y gofyniad ar ddatblygwyr datblygiadau mawr i nodi mesurau cadarnhaol sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg, cynyddu'r cyfleoedd i siarad yr iaith ac i gyflwyno unrhyw fesurau lliniaru mewn achos lle mae effeithiau andwyol sylweddol ar y Gymraeg. Gallwn weld bod y gofyniad yma yn cyd fynd â nodau strategol *Caerdydd Dwyieithog*. Mae hefyd yn cyd-fynd ag un o amcanion cynllun strategol newydd y Comisiynydd, sef i gynyddu cyfleoedd ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg, gan greu amgylcheddau lle gall pobl ddefnyddio'r iaith yn hwylus ac yn gyson, gan gynnwys gweithleoedd. Bydd ein Tîm Hybu yn gweithio gyda busnesau ac elusennau er mwyn gweld cynnydd yn nefnydd y Gymraeg mewn gweithleoedd ar draws Cymru, a gallent fod o help i fusnesau sy'n creu datblygiadau mawr yng Nghaerdydd i wireddu gofynion y CDLl. Er enghraifft mae gan y tîm ganllaw arwyddion dwyieithog y byddai modd ei rannu â datblygwyr.

**Cyfeirio at Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau**

Mae'r CDLl newydd yn dweud:
"Lle bo'n briodol, bydd yn ofynnol i gynigion datblygu gydnabod statws swyddogol y Gymraeg yn y ddinas ac ymrwymo i hwyluso cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â gofynion Safonau a Mesur y Gymraeg".

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Rydym yn falch bod y CDLI yn cyfeirio at statws swyddogol y Gymraeg. Er hynny, rydyn ni'n meddwl y bod y cyfeiriad at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn rhy amwys, ac y dylai'r CDLI fod yn fwy rhagnodol wrth esbonio ei arwyddocâd. Mae nifer fawr o safonau'r Gymraeg yn cynnwys y gofyniad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac mewn cyd-destunau gwahanol. Dylai'r CDLI newydd ddisgrifio ym mha sefyllfaoedd mae'r egwyddor yn berthnasol, e.e. wrth ddarparu addysg, neu ar weledwedd y Gymraeg ar arwyddion. Efallai y byddai codau ymarfer y Comisiynydd, sy'n cynnig diffiniadau o'r hyn a olygir o'r gofyniad, fesul safon, yn help llaw i chi.

**Casgliad**

Mae'r CDLI newydd yn esiampl dda o sut y dylai awdurdod cynllunio fynd ati i ystyried ei bolisi cynllunio yng nghyd-destun cyfeiriad strategol y Gymraeg o fewn ei ffiniau. Mae gennym ddiddordeb deall y broses y defnyddiwyd er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog i'r CDLI, yn ogystal ag unrhyw heriau y profwyd ar hyd y daith. Ymhellach, mae gennym ddiddordeb deall mwy am gwmpas y CCA a pherthnasedd y gwaith i'r Gymraeg. Tybed a fyddai modd i fy swyddogion gyfarfod â chi er mwyn trafod hynny ymhellach? Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn o ddefnydd i chi. Mae croeso i chi gysylltu os hoffech drafod y materion uchod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg